

Cylchlythyr | Circular

Addysg uwch ddiogel a chynhwysol: cefnogi staff a myfyrwyr LHDTTC+

Dyddiad: 24 Ebrill 2024
Cyfeirnod: W24/05HE
At: Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
Penaethiaid colegau addysg bellach a reoleiddir yng Nghymru
Ymateb erbyn: Dim angen ymateb
Cyswllt: Enw: Jane Johns
E-bost: jane.johns@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu gwybodaeth i brifysgolion a cholegau a reoleiddir am addysg uwch ddiogel a chynhwysol fel y mae hyn yn berthnasol i gefnogi myfyrwyr a staff LHDTTC+ mewn addysg uwch. Mae'r cylchlythyr yn cynnwys enghreifftiau ymarferol o gymorth prifysgolion i bobl LHDTTC+ ac mae'n ystyried [Cynllun Gweithredu LHDTTC+ Llywodraeth Cymru](#).

Os oes angen y ddogfen hon arnoch
mewn fformat hygyrch arall,
anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu gwybodaeth i brifysgolion a cholegau a reoleiddir am addysg uwch ddiogel a chynhwysol fel y mae hyn yn berthnasol i gefnogi myfyrwyr a staff LHDTC+ mewn addysg uwch. Mae'r cylchlythyr yn cynnwys enghreifftiau ymarferol o gymorth prifysgolion i bobl LHDTC+ ac mae'n ystyried [Cynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru](#).
2. Mae'r cylchlythyr gwybodaeth hwn yn cyfrannu at ein hymrwymiad i hybu a chefnogi cyfle cyfartal mewn addysg uwch ac mae'n ystyried y nod yn y [Ddeddf Cydraddoldeb](#) (2010) i warchod pobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac yn y gymdeithas ehangach. Dylai addysg uwch ddiogel a chynhwysol fod yn un o ddeilliannau Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol effeithiol ac mae'n ategu nodau [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#), yn enwedig y rhai ynglŷn â Chymru sy'n Fwy Cyfartal a Chymru Iachach.¹
3. Mae'r cylchlythyr hwn yn ystyried [Cynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru](#), sy'n nodi cam gweithredu i 'sichrau bod pob coleg a phrifysgol yng Nghymru yn amgylcheddau LHDTC+-gynhwysol i ddysgwyr, myfyrwyr, a staff (cam gweithredu 29).
4. Mae'r cylchlythyr hwn yn defnyddio'r term staff a myfyrwyr 'LHDTC+'. Rydym yn cydnabod bod diffinio hunaniaethau'n gymhleth a bod pobl yn dewis uniaethu mewn gwahanol ffyrdd. Rydym wedi defnyddio'r term LHDTC+ yn gyson i gyd-fynd â'r diffiniadau a ddefnyddir yng Nghynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru. Rydym yn cydnabod bod y derminoleg LHDTC+ yn dal i esblygu yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn amcanu at fod yn sensitif a defnyddio terminoleg briodol a chynhwysol. Er bod y cylchlythyr hwn yn ymwneud â chefnogi staff a myfyrwyr LHDTC+, rydym yn cydnabod pwysigrwydd ystyried materion croestoriadedd a defnyddio dull 'sefydliad cyfan' o sichrau addysg uwch ddiogel a chynhwysol.
5. Dylid darllen y cylchlythyr hwn ar y cyd â'r cylchlythyrau canlynol ac unrhyw ddiweddariadau iddynt:
 - [W23/06HE: Addysg uwch ddiogel a chynhwysol: cefnogi cydraddoldeb ac addysg amrywiaeth](#)
 - [W23/29HE: Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn addysg uwch](#)
 - [W22/25HE: Cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch, dyraniadau 2022/23 a gofynion monitro 2021/22](#)
 - [W23/24HE: Llesiant ac iechyd: cyllid strategaethau llesiant ac iechyd 2023/24 a gofynion monitro 2022/23 a 2023/24](#)
6. O 1 Awst 2024, y [Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil](#) (y Comisiwn) fydd yn ysgwyddo dyletswyddau strategol i hybu cyfle cyfartal a thrwy reoleiddio i bennu amod cofrestru mewn perthynas â lles myfyrwyr a staff. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu gwybodaeth a fydd yn cael ei chymryd i ystyriaeth gan y Comisiwn maes o law.

¹ Rydym yn cydnabod bod y nodau'n gyd-ddibynnol.

Polisi, canllawiau ac arfer ledled y DU gyfan

7. Ceir crynodeb o bolisi, canllawiau ac arfer ledled y DU gyfan yn **Atodiad A**.

Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a CCAUC

8. Roedd polisiâu a chamau gweithredu LHDTTC+ yn rhan o'r [Rhaglen Lywodraethu 2021-26](#) ac o fewn y [cytundeb cydweithio](#) roedd nod i 'wneud Cymru y genedl fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTTC+ yn Ewrop'.
9. Mae addysg uwch ddiogel a chynhwysol yn un o'r themâu allweddol yn strategaethau a Chynllun Gweithredu LHDTTC+ Llywodraeth Cymru. Mae [Cynllun Gweithredu LHDTTC+ Cymru Llywodraeth Cymru](#) yn disgwyl '*bod pob coleg a phrifysgol yng Nghymru yn amgylcheddau LHDTTC+-gynhwysol i ddysgwyr, myfyrwyr, a staff*'.
10. I gyflawni'r deilliannau hyn mae Llywodraeth Cymru'n nodi ymrwymiad i CCAUC weithio gyda phrifysgolion:
 - i. 'i annog prifysgolion i ystyried materion sy'n ymwneud â chroestoriadedd, gan gynnwys cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd, wrth ystyried sut maent yn cefnogi eu staff a'u myfyrwyr amrywiol; a
 - ii. sicrhau bod eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn nodi sut y byddant yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys o ran sut mae hyn yn ymwneud ag ailbennu rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol.'
11. Mae Cynllun Gweithredu LHDTTC+ Llywodraeth Cymru'n cydnabod nad yw hi'n bosibl gwahanu cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag ailbennu rhywedd a hunaniaethau LHDTTC+. O fewn ei ymrwymiad i ddylunio dull gweithredu ysgol gyfan sy'n gwbl LHDTTC+-gynhwysol a'i roi ar waith, mae'r Cynllun Gweithredu'n nodi y dylai CCAUC (ac yn ddiweddarach y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) gael ei gynnwys fel partner.
12. Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ wedi gosod disgwyliadau bod yr ymrwymadau hyn yn cael eu cyflawni yn y tymor canolig sy'n cyfateb i oes y Senedd bresennol (2021-2026). Bydd [Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru](#) yn darparu data i sicrhau y cyflawnir yr ymrwymadau hyn a'u bod yn cael eu tanategu gan sylfaen dystiolaeth.
13. Ceir meysydd eraill yn y Cynllun Gweithredu lle gallai CCAUC, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a'r sector trydyddol wneud cyfraniad, gan gynnwys:
 - i. Mae Cam Gweithredu 13 yn nodi ymrwymiad y bydd Llywodraeth Cymru'n 'targedu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ymhlith cymunedau LHDTTC+'. Awgrymodd y [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#) fod pobl LHDTTC+ Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn fwy tebygol na phobl Wyn o ddiodef cam-drin domestig gan bartner (17% o'i gymharu ag 11%). Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd CCAUC gylchlythyr gwybodaeth [W23/29HE: Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol](#)

[mewn addysg uwch](#) a gofynnodd i brifysgolion gyflwyno adroddiadau i ni ar fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn addysg uwch. Ar adeg ysgrifennu rydym yn adolygu'r adroddiadau hyn a gyflwynwyd. Byddwn yn monitro sut y mae prifysgolion yn ystyried anghenion pobl LHDTC+ wrth iddynt barhau i ddatblygu eu cymorth ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

- ii. Mae Cam Gweithredu 17 yn ymrwmo i 'sicrhau bod Cymru fel Cenedl Noddfa yn parhau i gynnwys pobl LHDTC+'. I gyflawni hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn 'casglu tystiolaeth o brofiadau cadarnhaol a negyddol ceiswyr lloches LHDTC+ mewn perthynas [â'r broses lloches ac] (ag) integreiddio yng Nghymru er mwyn deall ac ystyried eu hanghenion'. Ym mis Ionawr 2021, i gyfrannu at yr ymrwymiad hwn, cyhoeddodd CCAUC [gylchlythyr W21/03HE: Supporting asylum seekers and refugees in higher education in Wales: HEFCW audit including practice case studies](#).
14. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fel rheoleiddiwr Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [A Yw Cymru'n Decach 2023](#). Mae'n nodi '*yng Nghymru mae rhai polisïau clir i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a wynebir gan grwpiau LHDTC+...ond dylid gwneud mwy o waith i wella'r modd y cesglir data ac y rhoddir polisi ar waith i ystyried heriau croestoriadol*'. Mae'r adroddiad yn nodi bod 56.5% o ymatebwyr sy'n fyfyrwyr prifysgol wedi dweud eu bod wedi rhoi gwybod i'r 'rhan fwyaf' neu 'bob un' o'r aelodau eraill o'u dosbarth neu fyfyrwyr eraill am eu hunaniaeth. Rydym yn annog prifysgolion i gymryd hyn i ystyriaeth.
15. Mae canllawiau CCAUC ynghylch [Cynlluniau Ffioedd a Mynediad ar gyfer 2024/25 – 2026/27](#) yn cefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch, gan gynnwys i bobl â nodweddion gwarchoddedig. Diben y cynlluniau yn y cyd-destun hwn yw hybu cyfle cyfartal.

Polisïau ac arferion prifysgolion

16. Tuag at ddiwedd 2023 fe gwblhaom ni adolygiad desg o wefannau prifysgolion a'r wybodaeth y maent yn ei darparu am gefnogi staff a myfyrwyr LHDTC+. Rydym wedi adnabod yr arfer diddorol canlynol:
 - Mae'r rhan fwyaf o brifysgolion yn cyfeirio at gefnogi cymunedau LHDTC+ o staff a myfyrwyr yn eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol.
 - Mae gan yr holl brifysgolion strategaethau a chynlluniau cyflawni blynyddol Llesiant ac Iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, a gyllidir gan CCAUC. Maent wedi ystyried cydraddoldeb a chroestoriadedd, wedi cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a, lle y bo'n briodol, maent wedi cynnwys camau gweithredu cysylltiedig yn eu cynlluniau cyflawni. Mae canllawiau CCAUC yn disgwyl i strategaethau a chynlluniau prifysgolion ystyried anghenion pobl LHDTC+.
 - Mae'r rhan fwyaf o brifysgolion yn cadarnhau bod ganddynt rwydweithiau staff LHDTC+ sy'n cefnogi staff. Mae dau o'r rhain yn cefnogi myfyrwyr ôl-radd.
 - Mae undebau myfyrwyr y rhan fwyaf o brifysgolion wedi sefydlu rhwydweithiau cymorth LHDTC+.

- Mae'r holl brifysgolion wedi cwblhau offer hunanasesu #stepchange sy'n cynnwys ffocws ar brifysgolion diogel a chydraddoldeb ac amrywiaeth.
 - Mae un brifysgol yn darparu cynhyrchion mislif ym mhob toiled, ni waeth beth fo rhywedd y defnyddwyr, i sicrhau bod y rhain ar gael i bobl drawsryweddol yn eu dewis doiled.
 - Mae rhai prifysgolion yn annog staff a myfyrwyr i gynnwys eu dewis ragenwau yn eu llofnodion e-bost.
 - Mae un brifysgol yn galluogi myfyrwyr i gofnodi eu dewis enw yn hytrach na'u henw genedigol wrth gofrestru yn y brifysgol.
 - Mae un brifysgol yn cyhoeddi ei chyngor, gwybodaeth a chanllawiau ar droseddau casineb² ar ei gwefan.
 - Mae gan un brifysgol feini prawf ar gyfer grantiau ariannol sy'n cynnwys cymorth penodol i fyfyrwyr trawsryweddol.
 - Mae rhai prifysgolion yn ystyried llety penodol ar gyfer pobl LHDTC+.
17. I gefnogi myfyrwyr LHDTC+, gall prifysgolion ac undebau myfyrwyr ymgysylltu ag asiantaethau'r trydydd sector sy'n cynnig arbenigedd a chymorth. Mae rhai prifysgolion yn [Hyrwyddwyr amrywiaeth Stonewall](#), yn gyflogwyr cynhwysol ac yn aelodau o [Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall](#). Mae gan dair prifysgol yng Nghymru statws hyrwyddwyr amrywiaeth Stonewall ac mae pedair prifysgol wedi'u hadnabod yn [gyflogwyr cynhwysol](#).
18. Daw'r enghreifftiau yn yr adran hon o wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus. Rydym yn cydnabod y gall prifysgolion eraill fod yn cynnig gweithgareddau a chymorth tebyg nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn. Rydym yn croesawu lle mae prifysgolion yn rhannu arfer diddorol trwy rwydweithiau i hybu cyfle cyfartal ac addysg uwch ddiogel a chynhwysol.

Camau nesaf

19. Byddwn yn monitro Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol prifysgolion a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024 i oleuo ein dealltwriaeth ynghylch sut y maent yn cyflawni eu dyletswyddau cydraddoldeb ac yn cyfrannu at Gynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru. Wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu tanategol ar gyfer Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol rydym yn annog prifysgolion i egluro'n benodol sut y byddant yn cyflawni eu dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel y mae'n berthnasol i gyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd.
20. Mae gan yr holl brifysgolion yng Nghymru strategaethau Llesiant ac lechyd, gyda'r mwyafrif yn cael eu hadolygu neu eu hailysgrifennu yn 2025. Wrth gyllido'r strategaethau hyn, rydym yn disgwyl i'w cynlluniau cyflawni ystyried anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig, gyda hynny'n cael ei oleuo gan asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.
21. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid i gynorthwyo prifysgolion a cholegau a reoleiddir i fodloni'r disgwyliadau a nodir yng Nghynllun Gweithredu

² Ystyr trosedd casineb yw unrhyw dramgwydd troseddol y mae'r dioddefwr neu unrhyw berson arall o'r farn ei fod wedi cael ei gymell gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar nodwedd wirioneddol neu dybiedig rhywun o ran anabledd, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu pa un a ydynt yn drawsryweddol.

LHDTC+ Llywodraeth Cymru. Wrth i'r Comisiwn ddod yn gyfrifol am oruchwylio addysg uwch, gyda dyletswydd strategol i hybu cydweithio rhwng darparwyr addysg drydyddol ac undebau llafur, bydd yn ystyried disgwyliadau [partneriaeth gymdeithasol](#) Llywodraeth Cymru gan gynnwys ymgysylltu â chynrychiolwyr undebau i gefnogi staff â nodweddion gwarchoddedig. Bydd y Comisiwn yn rhannu gwybodaeth a chynghor gyda'r sector trydyddol, gan gynnwys canllawiau ar gyfer y DU gyfan, yn enwedig mewn meysydd sy'n dod i'r amlwg megis cymorth i bobl drawsryweddol.

Rhagor o wybodaeth

22. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Jane Johns (jane.johns@hefcw.ac.uk).

Asesu effaith ein polisiau

23. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio asesu'r effaith i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Fe wnaethom ystyried effaith polisiau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn y sector AU yng Nghymru ac effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau o'r effaith.
24. Rydym yn disgwyl i'n proses asesu'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer ein holl bolisiau ystyried pobl â nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys rhyw a chyfeiriadedd rhywiol pobl mewn addysg uwch. Mae ein polisi addysg uwch ddiogel a chynhwysol yn defnyddio dull croestoriadol o ymdrin â nodweddion gwarchoddedig. Mae ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi adnabod effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a llesiant gan bod effeithiau cyfartalog y pandemig ar lesiant myfyrwyr 50% yn fwy ar gyfer pobl LHDTC+ na'u cymheiriaid, ac mae'r bwlch yma wedi parhau. Adnabuwyd cyfraddau uwch o ran cyflyrau iechyd meddwl ymhlith menywod LHDTC+ hefyd. Dylai fod effaith gadarnhaol ar ailbennu rhywedd hefyd gan bod un ymhob pedwar myfyriwr LHDTC+ yn dweud nad yw eu prifysgol yn dangos ymrwymiad amlwg i gydraddoldeb ar gyfer pobl draws³.
25. Mae ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi adnabod hefyd bod myfyrwyr LHDTC+ o gefndiroedd ethnig amrywiol yn parhau i wynebu lefelau uwch o ymyleiddio oherwydd croestoriadau eu hunaniaeth. Gall hunaniaeth rywiol fod yn fater arbennig o gymhleth i rai pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol oherwydd ystyriaethau diwylliannol, crefyddol ac o ran diogelwch.
26. Mae rhai adnoddau gan gynnwys gwybodaeth, cynghor a chanllawiau i helpu prifysgolion i gefnogi eu staff a myfyrwyr LHDTC+ ar gael ar hyn o bryd o [Student Space](#). Bydd adolygiad CCAUC o strategaethau cyflawni Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol a Strategaethau Llesiant ac Iechyd prifysgolion yn annog prifysgolion i adolygu'r cymorth cyfredol i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion myfyrwyr a staff LHDTC+.

³ www.universitiesuk.ac.uk/latest/insights-and-analysis/how-universities-can-support-lgbtq

Atodiad A

Polisi, canllawiau ac arfer ledled y DU gyfan

1. Mae [Stonewall Cymru](#) yn amlygu pwysigrwydd dull croestoriadol, gan gydnabod bod myfyrwyr LHDTTC+, yn ogystal â bod yn fwy tebygol o ddatgan cyflwr iechyd meddwl, hefyd yn fwy tebygol o “ddod o ardal ddifreintiedig”. Adnabu Stonewall rwystrau ychwanegol i fyfyrwyr LHDTTC+ sy'n codi o “wrthdaro neu ymddieithrio teuluol” gan olygu y gallant ei chael hi'n anodd dod o hyd i dai diogel a fforddiadwy y tu hwnt i'r tymor.
2. Mae [Advance HE](#) yn nodi y gall myfyrwyr LHDTTC+ “wynebu cyfraddau uwch o ran diffyg parhau ag astudiaethau, bod ag anghenion penodol o ran cymorth ar gyfer iechyd meddwl ac y gallant wynebu cyfraddau aflonyddu uwch”.
3. Mae [Student Minds](#) yn darparu adnoddau a gwybodaeth ar gyfer myfyrwyr LHDTTC+ gan weithwyr proffesiynol mewn prifysgolion a chyn-fyfyrwyr a gyhoeddir mewn canllaw ar-lein.
4. Ers 2020, mae CCAUC wedi bod yn cyllido [Student Space](#) ar y cyd â'r [Swyddfa Fyfyrwyr](#). Mae [Student Space](#) yn rhoi cyngor a gwybodaeth i ymgodymu â bywyd fel myfyriwr. Ceir cymorth penodol ar gyfer myfyrwyr LHDTTC+, gan gynnwys ar gyfer ymdrin â [gorbryder ac arwahanrwydd](#) a [hyfforddiant ar ddiogelwch a cham-drin](#).
5. Yn 2021, fe gyhoeddodd UCAS [adroddiad](#) sy'n nodi bod 40,000 o fyfyrwyr LHDTTC+ yn ymgeisio i addysg uwch yn y DU bob blwyddyn. O ran croestoriadedd:
 - Mae 17% o fyfyrwyr LHDTTC+ o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig (POLAR4).
 - Mae myfyrwyr LHDTTC+ yn fwy tebygol o ddatgan anabledd na myfyrwyr eraill (30% o'i gymharu â 12%), yn enwedig cyflwr iechyd meddwl (13% o'i gymharu â 2.9%).
 - Mae ymgeiswyr LHDTTC+ yn fwy tebygol o fod wedi datgan eu bod yn wyn nag ymgeiswyr eraill, gydag 82% o ymgeiswyr LHDTTC+ yn wyn o'i gymharu â 68% o ymgeiswyr eraill.
6. Yn 2022, nododd [cyhoeddiad mewnwelediad gan Universities UK](#) fel a ganlyn:
 - mae 42% o fyfyrwyr LHDTTC+ yn cuddio neu'n celu'r ffaith eu bod yn LHDTTC+ oherwydd eu bod yn ofni gwahaniaethu.
 - mae un ymhob deg o fyfyrwyr LHDTTC+ yn dweud nad yw eu prifysgol yn dangos ymrwymiad gweladwy i gydraddoldeb LHD.
 - mae un ymhob pedwar myfyriwr LHDTTC+ yn dweud nad yw eu prifysgol yn dangos ymrwymiad amlwg i gydraddoldeb ar gyfer pobl draws.
 - mae 17% o fyfyrwyr traws wedi dweud nad ydynt yn gallu defnyddio toiled yn y brifysgol y maent yn teimlo'n gysurus gydag ef gan nad toiledau sy'n niwtral o ran rhywedd yw'r norm yng nghampysau holl brifysgolion y DU.
7. Yn 2022, rhyddhaodd TASO adroddiad ar [Lesiant Myfyrwyr LHDTTC+](#). Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ddadansoddi data o'r Arolwg o Brofiadau Academaidd

Myfyrwyr sy'n casglu barn mwy na 10,000 o fyfyrwyr bob blwyddyn. Canfu'r adroddiad fel a ganlyn:

- Roedd effeithiau cyfartalog y pandemig ar lesiant myfyrwyr 50% yn fwy ar gyfer pobl LHDTC+ nag ar gyfer eu cyfoedion, ac mae'r bwch yma wedi parhau.
 - Mae dros hanner yr holl fyfyrwyr trawsryweddol bellach yn profi gorbryder uchel.
 - Pobl arywiol sy'n profi'r llesiant gwaethaf yn systematig o blith unrhyw grŵp cyfeiriadedd rhywiol.
 - Bydd bylchau mewn gorbryder rhwng myfyrwyr LHDTC+ a myfyrwyr strêr yn cymryd yn hwy nag 20 mlynedd i'w cau, yn ôl cyfraddau cyn y pandemig.
8. Nododd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru yn ei [gyhoeddiad ar Gymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch](#) yn 2023 fod myfyrwyr LHDTC+ yn wynebu cyfraddau uwch o broblemau iechyd meddwl.
9. Argymhellir yn yr adroddiad y dylai CCAUC (ac wedi hynny y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) *"leihau'r risg i fyfyrwyr o ganlyniad i brofi gwahaniaethu neu fwlio mewn addysg sy'n codi o'u cyfeiriadedd rhywiol, gan gynnwys cofnodi digwyddiadau ac adrodd amdanynt"*.